



# **Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS)**

## **Beth os nad ydych chi wedi hawlio oddi wrth Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru neu gynllun arall yn y Deyrnas Unedig?**

Os ydych chi wedi cael diagnosis o Hepatitis C neu HIV yn ddiweddar ac erioed wedi gwneud cais i WIBSS neu i unrhyw un o'r cynlluniau eraill, gallwch lenwi ffurflen gais i ddod yn fuddiolwr Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS). Mae hwn yn berthnasol dim ond os ydych chi'n amau eich bod chi wedi cael eich heintio o ganlyniad i gael gwaed, meinwe neu gynhyrchion gwaed heintiedig gan y GIG yn y DU cyn Medi 1991, neu os cawsoch eich heintio gan rywun a dderbyniodd waed heintiedig ac sy'n fuddiolwr Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru neu un o'r cynlluniau blaenorol ar hyn o bryd.

*Mae ffurflenni cais ar gael ar wefan WIBSS. Cysylltwch â WIBSS os oes gennych unrhyw ymholiadau, os nad ydych chi'n siŵr pa ffurflen i'w llenwi, neu os hoffech help i lenwi'r ffurflenni. Os bydd angen copi caled o'r ffurflen arnoch, cysylltwch â Chynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru a bydd ffurflen yn cael ei hanfon atoch yn y post.*

## **Gwybodaeth feddygol**

Pan fyddwch chi wedi llenwi'ch ffurflen, dylech chi rhoi i'r meddyg sy'n trin eich haint Hepatitis C – arbenigwr clinigol ar Hepatitis C (sef naill ai Hepatolegydd neu ymgynghorydd clefydau heintus) fydd hwn fel arfer, er y gallai fod yn feddyg teulu os nad ydych chi wedi gweld arbenigwr. Os oes gennych unrhyw gofnodion meddygol perthnasol (er enghraifft sy'n dangos i chi gael trallwysiad gwaed), gwnewch yn siŵr bod copi o'r rhain ar gael gan eich meddyg.

Byddwn yn gofyn i'ch meddyg lenwi gwybodaeth sy'n cadarnhau eich bod chi wedi'ch heintio â Hepatitis C a darparu gwybodaeth berthnasol am unrhyw gofnodion a fyddai'n dangos eich bod chi wedi derbyn trallwysiad gwaed, cynhyrchion gwaed neu drawsblaniad meinwe, o fewn y cyfnod penodedig, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall sydd ar gael. Os oes gennych Hepatitis C datblygedig Cam II, bydd angen i'r meddyg ddarparu rhywfaint o wybodaeth glinigol ychwanegol hefyd (fel tystiolaeth bod gennych sirosis yr afu/iau, canser yr afu/iau, lymffoma cell B nad yw'n non-Hodgkin's neu eich bod chi ar y rhestr aros ar gyfer trawsblaniad afu/iau, neu wedi cael un). Yna, dylai ddychwelyd y ffurflen wedi'i chwblhau i Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru; mae eu manylion ar y ffurflen gais berthnasol.



## Meini Prawf Cymhwysedd Llawn – Ymgeiswyr Newydd

***Nod Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru fydd rhoi penderfyniad ar bob cais o fewn 25 diwrnod gwaith, er y gall fod yn hirach os byddant angen gofyn i chi neu eich meddyg am wybodaeth ychwanegol.***

**Yn achos pobl gafodd eu heintio'n uniongyrchol â Hepatitis C gan waed, meinwe neu gynhyrchion gwaed gan y GIG, dylech allu cadarnhau pob un o'r canlynol:**

- Rydych wedi'ch heintio naill ai â Hepatitis C Cam I (cronig) neu Gam II (datblygedig). Sylwch: gallech gymhwyso i'r cynllun o hyd os yw'ch haint hepatitis C wedi'i thrin yn llwyddiannus.
- Roeddech yng Nghymru pan gawsoch eich heintio ac nid ydych eisoes wedi derbyn unrhyw daliadau gan gynllun arall yn y DU ac nid ydych yn gymwys ar hyn o bryd i gael arian gan unrhyw gynllun arall.
- Yn ôl pwysau tebygolrwydd, cawsoch eich heintio â hepatitis C o ganlyniad i gael triniaeth gan y GIG yn y DU, cyn Medi 1991, ar ffurf trallwysiad gwaed, trawsblaniad meinwe neu gynhyrchion gwaed (mae rhagor o fanylion am hyn isod).

**Yn achos pobl gafodd eu heintio gan rywun a gafodd waed, meinwe neu gynhyrchion gwaed gan y GIG, bydd angen i chi gadarnhau pob un o'r canlynol:**

- Yn ôl pwysau tebygolrwydd, cawsoch eich heintio â Hepatitis C a/neu HIV gan rywun gafodd ei heintio trwy waed, meinwe neu gynhyrchion gwaed gan y GIG.
- Mae'r person hwnnw wedi derbyn taliadau gan WIBSS neu, fel arall, daliadau gan Gronfa Skipton fel buddiolwr o Gymru. Os na fydd wedi gwneud cais eto i gael taliad, bydd angen iddo wneud cais a bydd angen i'r cais hwnnw gael ei ystyried cyn y gall WIBSS ystyried eich cais chi.
- Roeddech yn briod â'r person a wnaeth eich heintio ar yr adeg pan gawsoch eich heintio neu roeddech mewn partneriaeth sifil neu berthynas hirdymor ag ef/hi, **neu** cawsoch eich heintio gan eich mam pan oeddech yn faban.
- Cawsoch eich heintio trwy ryw, trwy drosglwyddo o'r fam i'r baban neu anaf damweiniol â nodwydd, er na fyddech yn gymwys os oeddech chi'n defnyddio nodwyddau i gymryd cyffuriau ac yn rhannu nodwyddau. Mae ffyrdd eraill o drosglwyddo'r haint wedi'u



## Meini Prawf Cymhwysedd Llawn – Ymgeiswyr Newydd

cynnwys hefyd os bydd y meddyg sy'n llenwi'r ffurflen yn cadarnhau mai drwy hynny rydych chi'n debygol o fod wedi'ch heintio.

- Ar yr adeg pan oeddech wedi'ch heintio, naill ai nid oedd eich priod neu bartner yn gwybod ei fod wedi'i heintio neu fe wnaeth y ddau ohonoch gymryd camau rhesymol i atal yr haint rhag cael ei throsglwyddo. Nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol os cawsoch eich heintio gan eich mam pan oeddech yn faban.

### **Yn achos pobl gafodd eu heintio'n uniongyrchol â HIV gan waed, meinwe neu gynhyrchion gwaed gan y GIG, dylech allu cadarnhau pob un o'r canlynol:**

*Er mai annhebygol yw hi y bydd rhywun sydd wedi'i heintio â HIV ond newydd gael diagnosis, os ydych wedi cael diagnosis o HIV yn ddiweddar a heb gyflwyno cais i WIBSS eto, gallwch wneud cais. Cysylltwch â WIBSS i gael rhagor o gyngor a ffurflen gais.*

Yn yr un modd â cheisiadau am gymorth Hepatitis C, byddai angen i chi ddangos y canlynol:

- rydych chi wedi'ch heintio â HIV.
- nid ydych eisoes wedi cael unrhyw daliadau gan gynllun arall yn y DU ac nid ydych yn gymwys ar hyn o bryd i gael arian gan gynllun arall
- yn ôl pwysau tebygolrwydd, cawsoch eich heintio â HIV o ganlyniad i gael triniaeth gan y GIG yn y DU, cyn Chwefror 1992, ar ffurf trallwysiad gwaed, trawsblaniad meinwe neu gynhyrchion gwaed. Yn wir, roedd holl waed y GIG yng Nghymru'n cael ei brofi am HIV o hydref 1985 ymlaen felly mae'n annhebygol iawn (er nad yn amhosibl) bod HIV wedi'i drosglwyddo trwy waed heintiedig ar ôl 1985.

### **Asesu Eich Cais**

Wrth asesu eich cais, ystyrir yn ôl pwysau tebygolrwydd p'un a yw'n debygol i chi gael eich haint o waed, meinwe neu gynhyrchion gwaed heintiedig, yn hytrach nag o unrhyw ffynhonnell arall. Er ei bod hi'n haws o lawer penderfynu ar hyn os oes gennych gofnodion meddygol sy'n dangos i chi gael trallwysiad gwaed cyn Medi 1991, gall eich cais gael ei gymeradwyo o hyd os gallwch ddarparu mathau eraill o dystiolaeth, fel datganiadau tyst neu dystiolaeth ffisegol fod y weithdrefn feddygol yn gysylltiedig â thrallwysiad wedi digwydd.

Mae WIBSS yn gwybod na fydd hi'n bosibl, mewn sawl achos, olrhain y cofnodion penodol sy'n gysylltiedig â'r trallwysiad neu'r weithdrefn feddygol a ddisgrifir, felly bydd yr asesiad bob amser yn seiliedig ar gryfder yr holl dystiolaeth ategol sydd ar gael. Os nad ydych yn siŵr, cysylltwch â WIBSS i drafod y math o wybodaeth sydd gennych a ph'un a yw'n debygol o fod



## Meini Prawf Cymhwysedd Llawn – Ymgeiswyr Newydd

yn berthnasol i'ch achos. Hefyd, gallant roi cyngor i chi ar sut i geisio olrhain unrhyw hen gofnodion meddygol.

Bydd WIBSS yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael hefyd ynghylch pa gynhyrchion a allai fod wedi'u heintio â hepatitis C ar yr adeg pan gawsoch unrhyw gynhyrchion gwaed neu drallwysiad(au) gwaed neu drawsblaniad meinwe.

Gallai'r canlynol fod wedi'u heintio, er bod rhai o'r cynhyrchion hyn wedi'u gwneud yn gwbl ddiogel (er enghraifft trwy driniaeth gwres) cyn Medi 1991:

- Os ydych chi'n dioddef o haemoffilia neu anhwylder gwaedu arall, ffactor ceulo'r gwaed Ffactor VIII neu Ffactor IX, *cryoprecipitate* neu FEIBA, plasma neu unrhyw drallwysiad gwaed cyflawn.
- Os nad oes gennych anhwylder gwaedu, unrhyw waed a dderbynioch trwy drallwysiad gwaed, albmin, mêr, imiwnoglobwlwlin mewnwthyennol (nad yw'n cynnwys Gwrth-D), plasma neu DEFIX.

***Ar ôl cael eich cais, nod WIBSS fydd rhoi penderfyniad ar bob cais o fewn 25 diwrnod gwaith, er y gall fod yn hirach os byddant angen gofyn i chi neu eich meddyg am wybodaeth ychwanegol.***